



01.06.2020

Annwyl Rieni / Gofalwyr

Croeso yn ôl i ail hanner Tymor yr Haf. Gobeithio eich bod chi'n cadw'n iach ac yn ddiogel. Mae'r llythyr hwn yn rhoi diweddariadau a gwybodaeth i chi ynghylch datblygiadau ysgolion a ble'r ydym ar hyn o bryd.

Diweddariad Dysgu o Bell

Mae plattform Hwb a argymhellwyd gan Lywodraeth Cymru wedi sicrhau amgylchedd diogel ar-lein i bawb. Mae ystafelloedd dosbarth Hwb yn llwyddiannus iawn, gyda chanran uchel iawn o ddisgyblion yn cael mynediad i'r adnoddau hyn ac yn ymgysylltu â nhw. Mae teuluoedd meithrin wedi bod yn mwynhau gweithgareddau, caneuon a straeon sydd ar gael iddynt gan 'Cwtsh Mrs Morris' ac mae'r rhyngweithio yma wedi bod yn gadarnhaol iawn hefyd. Ar ddechrau'r broses gloi, gwnaethom ddarparu technoleg a gliniaduron lle bo angen i gefnogi unrhyw ddisgybl na allai gyrchu a chymryd rhan yn y dysgu o bell ac mae hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn.

Mae ein cydweithwyr addysgu wedi sicrhau bod cydbwysedd o waith ysgol, tasgau cyfoethogi a sgiliau bywyd ar gael ar Hwb, tasgau sydd hefyd yn drawsgwricwlaidd. Mae ardal Drafod Hwb wedi rhoi cyfle i ddisgyblion ymgysylltu â'u cyfoedion ac athrawon dosbarth os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny. Mae staff yn ymateb yn rheolaidd i dasgau a thrafodaethau trwy e-bost ac ystafelloedd dosbarth Hwb, sy'n gyswllt uniongyrchol a phersonol cadarnhaol iawn rhwng staff a disgyblion. Wrth i ni gynllunio'r rhaglen nesaf o weithgareddau ar gyfer ein disgyblion, mae staff addysgu yn parhau i edrych ar ffyrdd o ddarparu gweithgareddau amrywiol i sicrhau bod disgyblion yn gallu rhyngweithio os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny a bod eu sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu cynnal. Yn ogystal â sgwrsio â'u cyfoedion os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny i gwblhau tasgau, mae yna lawer o apiau a rhaglenni y gellid eu defnyddio i sicrhau bod disgyblion yn clywed ac yn cynnal lefel sylfaenol o Gymraeg. Gallwch chi helpu'ch plant trwy eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd ar gael trwy gyfryngau amrywiol, e.e. gwrandio ar gerddoriaeth Gymraeg, lawrlwytho apiau Cymraeg, gwyllo rhaglenni teledu Cymraeg, neu trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol neu dechnoleg ddigidol i'w hannog i ddefnyddio'r Gymraeg wrth siarad â ffrindiau a theulu. Mae Prifysgol Bangor newydd wneud ei meddalwedd Cysgliad yn rhad ac am ddim i'w lawrlwytho; Pecyn meddalwedd yw Cysgliad sy'n cynnwys gwiriwr gramadeg a sillafu Cymraeg Cysill yn ogystal â chasgliad geiriaduron Cysgeir ac mae'n offeryn gwych ar gyfer gwirio sillafu a gwaith geiriadur. Gellir dod o hyd i Cysgliad ar wefan Prifysgol Bangor www.bangor.ac.uk.

Mae gan Hwb lawer o weithgareddau Cymraeg a gellir cyrchu pob rhaglen trwy gyfrwng Cymraeg neu Saesneg. Bydd adnoddau addysgol pellach yn cael eu rhyddhau dros Hwb dros yr wythnosau nesaf, yn ychwanegol at yr adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd. Cadwch lygad hefyd ar ein cyfrif Twitter gyda'n straeon rheolaidd a'n gwasanaethau wythnosol ar sianel YouTube ein hysgol.

Yn amlwg bydd ein darpariaeth gwricwlaidd yn newid dros amser ac mae trafodaethau eisoes wedi digwydd ynghylch cael cyfarwyddiadau a gwybodaeth wedi'u recordio ymlaen llaw ar gael i ddisgyblion. Bydd y ddarpariaeth hon yn parhau i gael ei monitro gan uwch arweinwyr dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf, fel y pe byddem yn yr ysgol. Mae staff hefyd yn cwblhau

adroddiadau ysgolion disgyblion yn seiliedig ar gynnydd hyd at y pwynt cloi, cyhoeddir yr adroddiadau hyn yn ddiweddarach y tymor hwn.

Ailagor Ysgol

Nid oes gennym ddyddiad ailagor ysgolion eto yma ym Mhen-y-bont ar Ogwr nac yn wir yng Nghymru. Mae Kirsty Williams, Gweinidog Addysg Cymru, wedi ei gwneud yn glir y bydd ailagor yn cynnwys cynllunio gofalus yn seiliedig ar dystiolaeth a rhesymau diogelwch. Y wybodaeth ddiweddaraf yw, os a phryd y byddwn yn ailagor, byddwn yn dychwelyd yn raddol dros amser, gan ddilyn canllawiau a gweithdrefnau awdurdod lleol a'r llywodraeth i sicrhau amser paratoi a hyder yn yr holl randdeiliaid i dychwelyd. Nid ydym yn gwybod eto sut olwg fydd ar hyn, pryd y bydd hyn yn dechrau cael ei weithredu na pha grwpiau blwyddyn y bydd yn eu cynnwys. Gan fod hon yn sefyllfa newydd i ni hefyd, gofynnwn ichi ganiatáu amser inni weithio trwy'r trefniadau hyn i sicrhau'r canlyniad gorau posibl i bawb. Rydym yn gwerthfawrogi eich amynedd yn y mater hwn a byddwn wrth gwrs yn parhau i gyfathrebu â chi wrth i'r paratoadau hyn fynd yn eu blaen, yn ein dull agored a gonest arferol.

Lles a Chefnogaeth i Deuluoedd

Diolchwn eto i'r holl rieni / gofalmwyr am eich cefnogaeth barhaus. Cofiwch nad oes pwysau i gwblhau tasgau neu waith a gynigir i ddisgyblion. Efallai na fyddwch mewn sefyllfa i gyflawni'r holl dasgau a gweithgareddau, efallai bod gennych ymrwymadau eraill, efallai bod disgyblion yn mynychu'r lleoliad gofal plant brys neu efallai bod gennych weithgareddau wedi'u cynllunio eich hun. Peidiwch â phryderi am hyn. Rydym yn gwybod bod llawer ohonoch yn poeni am effaith cloi i lawr ar addysg, ond fel addysgwyr proffesiynol, gawn ni eich sicrhau y byddwn yn ymdrîn â hyn dros amser. Lles eich hunain a'ch plant yn ogystal â'n staff yw ein ffocws a'n blaenoriaeth, yn yr hyn sy'n gyfnod newydd, ansicr i lawer.

Wrth i ni ysgrifennu hyn, Mae mesurau cloi i lawr yn ymlacio ychydig gan ein bod bellach yn gallu ymweld ag aelodau eraill o'r teulu yn yr awyr agored wrth gynnal pellter cymdeithasol a hylendid dwylo da. Bydd hyn yn rhyddhad i lawer sydd yn gweld eisiau teulu a ffrindiau.

Rydym mewn cysylltiad o bell â llawer o deuluoedd ac asiantaethau yn ystod cau'r Ysgol ac unrhywun sydd ag angen cefnogaeth bellach neu reolaidd. Fel bob amser, os oes angen unrhyw gymorth ar unrhyw un yn ystod y cyfnod hwn o gau, ebostiwch gyfeiriad gweinyddol yr ysgol sef admin.broogwr@bridgend.gov.uk a byddwn mewn cysylltiad i ddarparu unrhyw gefnogaeth briodol y gallwn ei chynnig.

I gloi, hoffem ddweud DIOLCH enfawr unwaith eto wrth bob aelod o gymuned Bro Ogwr sy'n cefnogi mewn unrhyw ffordd, p'un a ydych chi'n weithwyr rheng flaen, gwirfoddolwyr neu deuluoedd sy'n cefnogi gweithgareddau gartref. Gyda'n gilydd gallwn gefnogi ein gilydd ac edrychwn ymlaen at eich croesawu chi I gyd yn ôl yn yr Ysgol cyn gynted ag y bydd yn ddiogel ac yn bosibl gwneud hynny.

Cofion cynnes,

Sharon Jayne

Pennaeth

Nik Dart

Cadeirydd y Llywodraethwyr